Hysbysiad Preifatrwydd Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru

Mae Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i chefnogi gan Mathematics in Education & Industry (MEI). Rydym wedi ein lleoli ym Mhrifysgol Abertawe gyda swyddfeydd ym Mhrifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Aberystwyth. Lleolir Arweinydd y rhaglen ym Mhrifysgol Abertawe gyda Phrifysgolion Abertawe, Bangor, Caerdydd ac Aberystwyth yn gweithredu fel Cyd-reolwyr Data.

Mae Prifysgol Abertawe yn gyfrifol am gasglu a phrosesu data personol gan gynnwys data a ddiffinnir yn sensitif. O'r herwydd, Prifysgol Abertawe yw'r rheolwr data ac mae'n ymrwymedig i ddiogelu hawliau cyfranogwyr yn unol â Deddf Diogelu Data'r DU 2018 (DPA) a'r Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol (GDPR). Mae gan Brifysgol Abertawe Swyddog Diogelu Data y gellir cysylltu â nhw trwy dataprotection@swansea.ac.uk

Mae'n ofynnol i'r Rhaglen gasglu peth gwybodaeth er mwyn cadw at ofynion cyllido. Llywodraeth Cymru yw'r Rheolydd Data ar gyfer y data y mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i fuddiolwyr ei gasglu. Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru ar Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Rydym yn cymryd casglu, storio a defnyddio data personol yn ddifrifol iawn. Yn y ddogfen hon, cewch esboniad o'r rheswm pam rydym yn casglu data unigol fel rhan o Raglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru, sut yr ydym yn ei brosesu a'r camau a gymerwn i sicrhau diogelwch data ym mhob cam.

Mae'r holl ddata a gesglir trwy Raglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru yn cael ei phrosesu a'i storio yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol (GDPR).

Pa fath o wybodaeth ydym ni'n ei chasglu?

Casglwn y wybodaeth ganlynol gan fyfyrwyr sy'n cymryd rhan yn ein gweithgareddau i'n helpu i gadarnhau bod ein gweithgareddau'n gwella nifer y myfyrwyr sy'n astudio Mathemateg Safon Uwch:

- Enw
- Manylion cyswllt
- Dyddiad Geni
- Rhyw
- Cod post cartref
- Ethnigrwydd
- Cenedligrwydd
- Anabledd
- Cymhwyster prydau ysgol am ddim neu Lwfans Cynhaliaeth Addysgol
- A yw'r myfyriwr yn byw mewn gofal neu wedi bod yn y gorffennol

• Ffotograffau a ffilmiau - Yn ystod digwyddiadau gallwn gymryd lluniau a ffilmiau, a ddefnyddiwn at ddibenion marchnata fel ar ein gwefan neu yn ein cylchlythyr.
• Manylion cyswllt argyfwng
• Alergeddau
• Trefniadau meddygol
• Meddyginiaeth a gymerir

Rydym yn casglu manylion staff gan gynnwys eu henw, yr ysgol a'r cyfeiriad e-bost a ddefnyddir i gysylltu â hwy i roi gwybod am ein digwyddiadau ac i brosesu archebu ar gyfer digwyddiadau ar eu rhan.

Caniatâd

Nid ydym yn prosesu unrhyw ddata heb ganiatâd penodol. Rydym yn casglu data'n uniongyrchol o bynciau data. Os hoffech dynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg, e-bostiwch: rhgmbcymru@swansea.ac.uk

Pam rydym yn casglu data unigol a sut rydym yn ei ddefnyddio

Rydym yn casglu data ar unigolion am y rhesymau canlynol.

1. At ddibenion monitro sy'n ein galluogi i gyflawni gofynion adroddiadau allanol gorfodol i Lywodraeth Cymru.

2. I ganiatáu i ni gyrraedd ein targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i gynyddu'r niferoedd o fyfyrwyr sy'n astudio Mathemateg Safon Uwch a Mathemateg Bellach, gyda phwyslais ar sicrhau mwy o gyfranogiad benywaidd.

3. Sicrhau iechyd a diogelwch pawb sy'n cymryd rhan yn ein rhaglenni a chynorthwyo gydag anghenion bugeiliol a lles, e.e. sicrhau ein bod yn ymwybodol o gyflyrau meddygol.

4. Rhoi gwybodaeth am ein gwasanaeth i staff a myfyrwyr ysgolion a cholegau yng Nghymru.

5. Darparu hyfforddiant wedi'i deilwra i fyfyrwyr yng Nghymru.

Sut mae data'n cael ei brosesu

- Mewn mentrau pan mae Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru yn gweithio'n uniongyrchol gydag ysgol, anfonir ffurflen a llythyr eglurhaol adref i rieni plant sy'n cymryd rhan drwy'r ysgol yn gofyn am rai darnau o wybodaeth am y myfyriwr a chaniatâd i ddefnyddio hyn at y dibenion amlinellwyd uchod. Caiff y

ffurflen hon ei dychwelyd wedyn i Raglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru drwy'r ysgol, a theipir y data i mewn i daenlen ddiogel. Rydym yn casglu data am aelodau staff sy'n mynychu fel rhan o Ddysgu Proffesiynol.

- Mae taenlenni a ddiogelir gan gyfrinair sy'n cynnwys gwybodaeth staff a myfyrwyr unigol yn cael eu storio yn ardal ffeiliau RhGMB Cymru. Mae mynediad i'r taenlenni hyn wedi'i gyfyngu i aelodau tîm RhGMB Cymru. Gellir cyrchu hwn o Brifysgol Abertawe yn ogystal â Phrifysgolion Aberystwyth, Bangor a Chaerdydd. Mae hyn yn caniatáu inni weld effaith ar astudio mathemateg ar gyfer y myfyrwyr hynny sydd wedi cymryd rhan yn ein gweithgareddau. Mae unrhyw adroddiadau mewnol neu allanol sy'n defnyddio data a gasglwyd yn gwneud hynny mewn dull cyfanredol, sy'n golygu mai dim ond cyfansymiau sy'n cael eu dangos felly ni chaiff data ar unigolion byth ei ddatgelu.

Mae data mewn perthynas â chytundebau hyfforddi yn cael ei gynnal gan drydydd parti - Mathematics in Education & Industry a bydd yn cael ei gadw yn ddiogel ac yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol (GDPR) newydd. Gellir gweld rhybudd preifatrwydd llawn MEI: http://mei.org.uk/privacy-notice

Pwy sy'n derbyn eich gwybodaeth bersonol?

Mae gwybodaeth ar gael i bersonél sydd angen mynediad mewn amgylchiadau cyfyngedig. Mae'r rhain yn cynnwys:

Holl staff Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru ar bob safle

Mathematics in Education & Industry

Advanced Mathematics Support Programme

Llywodraeth Cymru (mae data'n cael ei wneud yn ddienw cyn adrodd)

Am ba hyd y bydd eich gwybodaeth yn cael ei gadw?

Bydd Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn unol â'n polisi rheoli cofnodion Prifysgol Abertawe. https://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/amdanom-ni/cydymffurfiaeth/rheoli-cofnodion/. Bydd holl recordiadau ar-lein Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru yn cael eu storio'n ddiogel a'u cadw am dair blynedd.

Diogelwch eich gwybodaeth

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn ei gwneud yn ofynnol i ni gadw eich gwybodaeth yn ddiogel. Mae hyn yn golygu y bydd eich cyfrinachedd yn cael ei barchu, a chymerir pob mesur priodol i atal mynediad a datgelu heb ganiatâd. Dim ond aelodau o staff sydd angen mynediad at rannau perthnasol neu'ch holl wybodaeth a fydd yn cael eu hawdurdodi i wneud hynny. Bydd cyfrinair ar y wybodaeth amdanoch chi ar ffurf electronig a chyfyngiadau diogelwch eraill, tra bydd ffeiliau papur yn cael eu storio mewn mannau diogel gyda mynediad rheoledig.

Beth yw eich hawliau?

Mae gennych hawl i gael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol, i unioni, dileu, cyfyngu a symud gwybodaeth bersonol. Ewch i dudalennau gwe Gwarchod Data'r Brifysgol am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'ch hawliau.

Dylai unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig i Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol: -

Swyddog Cydymffurfiaeth y Brifysgol (Rhyddid Gwybodaeth/Diogelu Data)
Swyddfa'r Is-ganghellor
Prifysgol Abertawe
Parc Singleton
Abertawe
SA2 8PP
E-bost: dataprotection@swansea.ac.uk

Sut i wneud cwyn

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich data personol wedi'i brosesu, gallwch, yn y lle cyntaf, gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych chi'n parhau i fod yn anfodlon, mae gennych yr hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: -

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House,
Water Lane,

Wilmslow,
Cheshire,
SK9 5AF
www.ico.org.uk

Cwestiynau Pellach?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y rhaglen, mae croeso i chi gysylltu â Thîm RhGMB Cymru, e-bost: rhgmbcymru@swansea.ac.uk neu ffoniwch: 01792 606845.